Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 747A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru – swyddog.gwybodaeth@audit.wales

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys John Herniman, David Thomas, Andrew Doughton, Claire Worrall a Victoria Roberts.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 9 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 10 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio. | 10 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 14 |
| Drwy ei drefniadau rheoli ariannol, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Serch hynny, nid oes ganddo hyd yma gynlluniau ariannol effeithiol a chynaliadwy wedi'u cynnwys yn rhan o gynllun tymor canolig integredig. | 14 |
| Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella o sylfaen weddol gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu'r gwaith cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei heriau ariannol tymor hwy yn y dyfodol, ac yn bodloni anghenion o ran gofal cleifion a iechyd y boblogaeth. | 17 |
| Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ymhellach ei ddull o ddylunio a rheoli newid ac o atgyfnerthu gwaith cynllunio'r gweithlu | 22 |
| Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes penodol | 23 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 26 |
| Ffi archwilio | 27 |
| Risgiau archwilio | 28 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr. Yn dilyn hynny, caiff ei gyflwyno gerbron cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, a darperir copi ohono i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).
5. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio. Mae a wnelo'r rhain â chamddatganiadau wedi'u cywiro ac un mater yn gysylltiedig â goruchwylio'r broses adrodd ariannol ar gyfer yr ymdriniaeth â mynegeio wrth gyfrifyddu.
7. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd wedi methu sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer ei gynllun tair blynedd ar adeg cyflwyno fy nhystysgrif, a hynny'n groes i'r gofyniad yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.
8. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
   - bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
   - bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad.
9. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Yn fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, archwiliais gadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran llywodraethu ansawdd a'r trefniadau ar gyfer mesur a gwella profiad y claf/defnyddiwr. Mae adolygiadau archwilio perfformiad hefyd wedi cael eu cynnal ar feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ar sail y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol:

### Drwy ei drefniadau rheoli ariannol, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Serch hynny, nid oes ganddo hyd yma gynlluniau ariannol effeithiol a chynaliadwy wedi'u cynnwys yn rhan o gynllun tymor canolig integredig

**11.** Drwy ei drefniadau rheoli ariannol ar gyfer 2013-14, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb, ond effeithiodd hyn ar ddarpariaeth gwasanaeth. Cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2013-14 ym mis Gorffennaf 2013. Er bod cyfanswm yr her ariannol wedi'i gyfrifo'n £44 miliwn yn y cynllun, dim ond £19.9 miliwn o arbedion oedd yn rhyddhau arian parod a chynlluniau pellach gwerth £6 miliwn i osgoi costau a nodwyd. Gadawodd hyn £19 miliwn yn weddill wedi'i or-ddyrannu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth gwasanaeth a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

**12.** Yn ystod y flwyddyn, datblygodd y Bwrdd Iechyd ystod o gynlluniau i leihau costau a chynyddu arbedion. Erbyn diwedd y flwyddyn, yr oedd wedi sicrhau 83 y cant o werth y cynlluniau arbed a'r mesurau a ddatblygwyd ganddynt i leihau costau, megis llwyddo i ail-negodi cytundebau hirdymor â rhanddeiliaid. O gyfuno hyn â £23.9 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydbwysedd ariannol.

**13.** Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull cynaliadwy o reoli arian hyd yma. Yng Nghynllun Ariannol Blynyddol 2014-15, nodwyd mai oddeutu £49 miliwn oedd cyfanswm yr her ariannol. Yn erbyn hyn, nodwyd cyfanswm o £23.1 miliwn o gynlluniau arbed a thargedau lleihau costau. Roedd hyn felly'n golygu diffyg o oddeutu £26 miliwn wrth gynllunio. Er mai ond oddeutu 2.5 y cant o gyfanswm y gyllideb yw hyn, mae'n dal yn her sylweddol yng nghyd-destun chwyddiant cost gofal iechyd, a chymhlethdod cynyddol y galw am ofal iechyd.

**14.** Mae'r cynlluniau arbed ar gyfer 2014/15 yn anodd eu cyflawni. Ddiwedd Hydref 2014, roedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau 55 y cant o gyfanswm yr arbedion disgwyliedig, ac yr oedd yn rhagweld £35 miliwn o ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £26.7 miliwn o gyllid ychwanegol ym mis Rhagfyr 2014. Ynghyd â'r mesurau ychwanegol sy'n cael eu cymryd, mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagweld y ceir bwlch ariannu gweddilliol o £3.9 miliwn. Gallai hynny ei alluogi i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Yr her yw cyflawni hyn heb amharu ar fynediad at wasanaethau.

**15.** Yn ogystal â'r her ariannol fyrdymor hon, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn datblygu ei gynllun tymor canolig integredig, sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol, a'i fod

hefyd yn moderneiddio gwasanaethau er mwyn bodloni'r galw ymhlith y boblogaeth am ofal iechyd yn y tymor hwy. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig sy'n ariannol gynaliadwy, er ei fod yn gweithio ar ei gynllun ar gyfer 2015-2017 ac yn hyderus bod ei sefyllfa'n gwella.

**16.** Mae arbedion y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar waith i ail-ddylunio gwasanaethau wrth greu Canolfan Gofal Critigol Arbenigol, a'r rhaglenni Dyfodol Clinigol a Gofal Iechyd Darbodus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun tymor canolig yn rhoi disgrifiad clir eto o'r modd y cyflawnir y trosglwyddiad hwn. Bydd alinio buddsoddiadau cyfalaf â modelau gofal newydd yn hollbwysig er mwyn llwyddo.

Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella o sylfaen weddol gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu'r gwaith cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei heriau ariannol tymor hwy yn y dyfodol, ac yn bodloni anghenion o ran gofal cleifion a iechyd y boblogaeth.

**17.** Mae effeithiolrwydd y Bwrdd, sicrwydd y Bwrdd a'r rheolaethau mewnol i raddau helaeth yn effeithiol ac yn datblygu i fodloni anghenion sy'n gysylltiedig â newid tymor hwy. Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol, ac mae'n glir bod y Bwrdd yn ystyried yr amgylchedd allanol newidiol a'i heriau a'i adolygiadau ei hun, ac yn diwygio'r strwythur pwyllgorau'n unol â hynny. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rwyf wedi nodi rhai agweddau ar lywodraethu y dylid eu gwella. Pwrpas hyn yw helpu'r bwrdd iechyd wrth iddo fynd rhagddo i wynebu heriau'r dyfodol. Ar y cyfan, mae strwythur gwasanaethau'r sefydliad yn cefnogi ei ddarpariaeth gwasanaeth, a'i drefniadau ar gyfer cyfathrebu ac atebolrwydd. Yr her yw datblygu trefniadau ymhellach er mwyn helpu i atgyfnerthu gwaith ymgysylltu clinigol fydd yn galluogi trawsnewid llwybrau a strwythurau gwasanaeth er mwyn bodloni'r galw am ofal iechyd ymhlith poblogaeth y dyfodol.

**18.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer rheoli perfformiad gweithredol, ac mae'n ymwybodol o'i anghenion o ran gwybodaeth perfformiad. Serch hynny, y mae taro cydbwysedd rhwng mynediad a phwysau ariannol yn her iddo. Mae'n glir bod y Bwrdd yn deall y pwysau ar wasanaethau, ac mae'n gwneud penderfyniadau deallus ynghylch agweddau ar berfformiad. Er bod y neges o frig y sefydliad ynghylch gwella gwasanaethau i'w chlywed yn glir, mae'n fwyfwy anodd taro cydbwysedd rhwng y galw am wasanaethau, adnoddau a chyllid.

**19.** Nid yw'r dull o gynllunio'n weithredol ac yn strategol yn bodloni anghenion y sefydliad eto, ond mae'n ceisio atgyfnerthu ei gynllun a'i drefniadau. Datblygodd y bwrdd ei gynllun tymor canolig integredig er mwyn sicrhau bod nodau a rhagdybiaethau ariannol yn cael eu hystyried yn realistig. Penderfynodd y Bwrdd Iechyd beidio amcangyfrif arbedion posibl yn rhy uchel, na phennu gostyngiadau cost tybiannol. Canlyniad hyn fu sefyllfa ariannol anghyson dros gyfnod o dair blynedd. Ar sail hynny, ni chafodd y cynllun tymor canolig integredig ei gymeradwyo gan y Bwrdd na Llywodraeth Cymru. Heb ystyried cyllid, nid oedd y cynllun yn ddigon cadarn i ennyn hyder yn y gallu i'w gyflawni. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn helpu i flaenoriaethu ei nodau a chanolbwyntio adnoddau.

20. Amlygai fy ngwaith yn 2013 yr angen i atgyfnerthu rhai agweddau ar reoli risg, adborth ar brofiadau cleifion, dysgu gwersi yn sgil adborth ar ansawdd ac atgyfnerthu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach. Yn fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2014, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan, a bod angen datblygu rhai meysydd ymhellach, megis ymwreiddio prosesau'n gysylltiedig â gwersi a ddysgwyd.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ymhellach ei ddull o ddylunio a rheoli newid ac o atgyfnerthu gwaith cynllunio'r gweithlu.

21. Nid yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i ddylunio newid, i gynllunio'r gweithlu a chyflawni newid, na'i gapasiti ar gyfer hynny, yn ddigonol i drawsnewid ar y cyflymder sydd ei angen. Bydd hyn yn her sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

22. Oherwydd ehangder y cynllun tymor canolig integredig gwreiddiol, a'r ffaith nad oes trefniadau wedi'u diffinio'n glir er mwyn cyflawni newid, nid yw'n glir a oes gan y Bwrdd Iechyd y gallu ar hyn o bryd i weithredu rhaglen newid mor gymhleth drwy'r holl sefydliad. Mae angen ffocws cryfach ar wasanaethau o ddyluniad mwy pendant yn y dyfodol, camau clir, cerrig milltir allweddol, atebolrwydd, yr adnoddau sydd eu hangen a chanlyniadau diffiniedig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn creu adnoddau ychwanegol, ond ar hyn o bryd, nid yw'n sicr a fydd hyn yn ddigonol.

23. Arweinir gwelliannau drwy newid gweithredol oddi mewn i is-adrannau'r Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio dulliau sy'n cynnwys datblygu gwasanaethau, ymgysylltu a gwaith partneriaeth. Datblygwyd tîm gwella mewnol y Bwrdd Iechyd, 'Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan' (GPAB) er mwyn helpu i gefnogi gwelliant clinigol drwy ddatblygu arweinyddiaeth glinigol, cymorth ar gyfer prosiectau a modelau gwasanaeth. Mae GPAB yn darparu mecanwaith da i gefnogi newid cynyddraddol sydd wedi'i alinio â modelau gwasanaeth clir wedi'u moderneiddio.

24. Nid yw dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio'r gweithlu wedi'i integreiddio'n ddigonol eto i unrhyw gynlluniau tymor canolig, ac er bod y rheolaeth ar y gweithlu'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth gweithredol, mae effeithiolrwydd y rheolaeth honno'n amrywio. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi rheolaeth ar y gweithlu yn risg allweddol, yn enwedig o ran recriwtio, defnyddio staff asiantaeth a locwm, hyfforddiant i staff meddygol, rheoli absenoldeb ac arfarnu perfformiad. Mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i reoli'r risgiau hyn, ac er bod modd rheoli rhai ohonynt, bydd rhai risgiau'n parhau i fod yn bryderon hirdymor.

Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, nodwyd cyfleoedd i sicrhau gwelliannau wrth ddefnyddio adnoddau mewn sawl maes penodol. Nodir negeseuon allweddol o bob adolygiad isod.

25. Ceir amrywio anesboniadwy yn adnoddau a llwythi gwaith y gwasanaeth nyrsio ardal, ynghyd â gwendidau mewn systemau gwybodaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu perfformiad, capasiti a'r galw. Mae rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i hyrwyddo dealltwriaeth well o wasanaethau nyrsio ardal, ond ni ddeellir ffiniau'r rôl bob amser, ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu.

**26.** Er y cafwyd lefel dda o fuddsoddi mewn codio clinigol o fewn y Bwrdd Iechyd, mae ystod o wendidau yn y trefniadau a'r prosesau codio clinigol yn lleihau cywirdeb data codio clinigol i raddau sylweddol.

**27.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ers 2011 wrth ymateb i faterion a nodwyd yn yr Adolygiad o Theatrau Llawdriniaeth a luniwyd gennyf yn flaenorol. Fodd bynnag, mae problemau ar y llwybr cleifion mewnol yn parhau i amharu ar ddefnydd effeithlon o Theatrau Llawdriniaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu agenda heriol o ran sicrhau bod Theatrau Llawdriniaeth yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol, ac atgyfnerthu cynhyrchiant sesiynau llawfeddygol.

**28.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae adrannau ac isadrannau'n gweithredu'r rhain. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn sefydlu mecanwaith olrhain ar gyfer y sefydliad, fydd yn olrhain y broses o weithredu argymhellion yr holl archwiliadau allanol, ac yr adroddir yn ei gylch yn rheolaidd wrth ei Bwyllgor Archwilio.

**29.** Fel rhan o'm gwaith ar yr asesiad strwythuredig, bydd fy nhîm yn trafod yr argymhellion ar gyfer gwella er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wneud cynnydd. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn llythyr ar wahân i'r Prif Weithredwr er mwyn helpu i wella'r trefniadau ar gyfer monitro'n barhaus.

**30.** Hoffwn gydnabod a diolch am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**31.** Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.

**32.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; ac
- **c)** fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**33.** Mewn perthynas ag (c), yr wyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data, ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**34.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

**35.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**36.** Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

**37.** I gloi, yn Atodiad 3 nodir y risgiau sylweddol o ran archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**38.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.

**39.** Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**40.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**41.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio.

### Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**42.** Mae'r amserlen dynn ar gyfer cynhyrchu datganiadau cyfrifyddu sydd yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth dda, yn her sylweddol i'r Bwrdd, ac yn enwedig i'w dîm cyllid. Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, lluniodd tîm cyllid y Bwrdd gynllun cau manwl ar gyfer 2013-14 a oedd yn cynnwys amser i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r datganiadau ariannol a llunio atodlenni ategol mewn pryd i'w harchwilio. Roedd hyn o gymorth i atgyfnerthu'r broses o gynhyrchu'r datganiadau ariannol ac o gymorth i fodloni'r amserlen dynn ar gyfer clirio.

**43.** Darparwyd drafft y datganiadau ariannol yn unol â'r dyddiad cau. Canfuom fod yr wybodaeth a ddarparwyd i'w harchwilio'n berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn sylweddol ac yn hawdd ei deall. Galluogodd hyn i ni gwblhau ein harchwiliad mewn modd effeithlon ac amserol,

ac adrodd ar ein canfyddiadau wrth y pwyllgor archwilio ar 3 Mehefin ac wrth y Bwrdd ar 5 Mehefin yn barod i gyflwyno erbyn y dyddiad cau. Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau a oedd yn dal heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol. Y prif addasiadau a wnaed i'r cyfrifon yn deillio o'r archwiliad oedd cynyddu'r croniadau a lleihau'r dyledion, ac effaith cywiro'r camddatganiadau oedd gostyngiad o £274,000 i warged y Bwrdd, o £362,000 i £88,000.

**44.** Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, rydym wedi gweithio gyda'r staff cyllid i adolygu a myfyrio ar y broses o gynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu nodi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cynhaliwyd ymarfer dysgu ar y cyd yn dilyn prosiect ym mis Medi, a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer 2014-15, gan gynnwys gweithdai gyda staff cyllid i atgyfnerthu'r trywydd archwilio mewn meysydd risg uchel, fel gofal iechyd parhaus a gofal sylfaenol. Adroddwyd ar y camau y cytunwyd arnynt yn yr ymarfer dysgu yn dilyn prosiect wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref.

**45.** Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd, fel y nodir uchod. Ceir crynodeb yn Arddangosyn 1 o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| **Adroddiad ACC ar y Cyfrifon** | Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'i farn, er mwyn tynnu sylw at y ffaith nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer ei gynllun tymor canolig integredig eto, yn unol â gofyniad Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Ymhelaethir ar hyn ym mharagraff 55 yr adroddiad hwn. |
| Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol | **Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus**<br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar gyfer eleni ar ofynion adrodd targed Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC) i dalu credydwyr masnachu o fewn 30 diwrnod. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gynnwys taliadau a wneir i gontractwyr gofal sylfaenol yn eu ffigurau.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn tybio bod pob taliad yn cael ei wneud o fewn 30 diwrnod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan nad yw'r system a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i brosesu taliadau gofal sylfaenol yn darparu gwybodaeth ystadegol ynghylch nifer y diwrnodiau a gymerwyd i wneud taliadau.<br>Rydym ni o'r farn fod data perfformiad PTSC oddi mewn ac oddi allan i'r GIG wedi'i orddatgan mewn perthynas â thaliadau gofal sylfaenol, ond ni allwn gyfrifo maint y gorddatganiad hwnnw.<br>Yn ogystal â hyn, ceir cam-ddatgan o hyd yn y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ynghylch rhai anfonebau sy'n destun anghydfod. Ystyrir bod pob anfoneb sy'n destun anghydfod a godir gan gyflenwr wedi'i dalu o fwn 30 diwrnod, gan nad oes modd eu holrhain. Mae'r ymdriniaeth hon yn esgor ar berfformiad |

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| | ffafriol, gan nad oes unrhyw sicrwydd bod anfonebau’n cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar ôl datrys yr anghydfod. |
| Materion eraill pwysig wrth oruchwylio’r broses adrodd ariannol | **Yr ymdriniaeth gyfrifo wrth fynegeio**<br>Yn ôl Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru dylid defnyddio mynegeio ar asedau i wrthdroi dibrisiant amhariadau’r flwyddyn gynt i ddechrau, a chredydu i’r gronfa ailbrisio wedi hynny. Byddai’r dull hwn yn credydu’r gwariant gan leihau gofynion ariannu amhariadau yn sgil hynny. Fodd bynnag, nid yw’r Llawlyfr Cyfrifon yn cyfleu’n glir a ddylid defnyddio cynnydd wrth ailbrisio i wrthdroi taliadau amhariad a achosir pan fydd asedau’n cael eu defnyddio am y tro cyntaf. Bydd angen i Lywodraeth Cymru roi eglurhad ynghylch hyn ar gyfer 2014-15.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi derbyn ei bod hi’n bosibl na cheir ymdriniaeth gyson wrth fynegeio’n unol â Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru, ac wedi cyfrifo mai oddeutu £330,000 yw effaith unrhyw gamddatganiad posibl. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, yr oedd wedi trafod a chytuno â Llywodraeth Cymru ar ei ymdriniaeth gyfrifyddu wrth weithredu’r ymdriniaeth honno. Rydym yn derbyn bod lle i ddehongli o ran y canllawiau cyfrifyddu a geir yn Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru. |

**46.** Yn rhan o’m gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i’r casgliad bod y ffurflen yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2014, a’i bod wedi’i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a’r Adroddiad Blynyddol - Deuthum i’r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â’r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ym mhob ffordd berthnasol. Paratowyd amserlen fanwl a chyfrifoldebau clir gan y Bwrdd er mwyn llunio adroddiad 2013-14, a bu’r broses felly’n rhwyddach na’r flwyddyn flaenorol. Byddwn yn parhau i gydweithio’n agos â staff y Bwrdd Iechyd i gytuno ar gynllun cyflawnadwy ar gyfer llunio Datganiadau Ariannol Cryno a’r Adroddiad Blynyddol, er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu’r gweithdrefnau a’u hatgyfnerthu ymhellach ar gyfer 2014-15.

**47.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol ar gyfer 2013-14 bellach wedi’i gwblhau, ac adroddwyd am unrhyw faterion a oedd yn codi wrth yr ymddiriedolwr ar 26 Tachwedd.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau’r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol

**48.** Ffocws pennaf fy ngwaith yw cywirdeb y datganiadau ariannol, adolygu’r amgylchedd rheoli mewnol er mwyn asesu a yw’n rhoi sicrwydd na cheir unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy wall neu drwy dwyll. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o’r brif system gyfrifyddu ac o brosesau rheoli a chau’r gyllideb, ac yn cynnwys asesiad o’r

seilwaith cyfrifiadurol ac o reolaethau rhaglenni. Rydym hefyd yn ystyried gwaith a rôl archwilio mewnol yn rhan o'r asesiad hwn. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad

**49.** Ni chefais hyd i unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael unrhyw effaith ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn deillio o'm gwaith archwilio ariannol, ac adroddwyd y rhain wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y materion y cyfeiriwyd atynt yn Arddangosyn 1 uchod. Cafodd arsylwadau manylach ar gyllid a'r system gyfrifyddu eu cynnwys yn yr adroddiad ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys camau gweithredu cytunedig mewn ymateb i argymhellion archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2014.

**50.** Roedd adolygiadau'r Adran Archwilio Mewnol o systemau cyllid y Bwrdd Iechyd a'r systemau a reolir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cadarnhau bod system rheoli ariannol fewnol gadarn ar waith ar y cyfan. Yr oedd chwech o'r 11 o adolygiadau archwilio ariannol yn ystod y flwyddyn yn rhoi sicrwydd sylweddol, a phump yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau mewnol o ddyluniad addas ac wedi'u cymhwyso'n effeithiol.

**51.** Fodd bynnag, canfu'r Adran Archwilio Mewnol rai gwendidau o ran cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau yn rhai adrannau o'r Bwrdd Iechyd. Daeth yr Adran i'r casgliad y gallai'r gwendidau hyn beryglu'r gallu i gyflawni amcanion neilltuol yn gysylltiedig â systemau. Mae angen i reolwyr weithredu'n barhaus yng nghyswllt y canfyddiadau archwilio mewnol. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu ar gyfer y Bwrdd Iechyd i atgyfnerthu'r gwendidau a nodwyd o ran rheolaeth, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i graffu ar gynnydd.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**52.** Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran rheoli ansawdd a threfniadau ar gyfer asesu profiadau cleifion/defnyddwyr gwasanaethau;
- gwaith ar ddefnydd penodol o adnoddau ym maes nyrsio ardal, codio clinigol a gwasanaethau orthopedig; ac
- asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar theatrau llawdriniaeth ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.

**53.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, daethom i'r casgliadau cyffredinol a ganlyn: Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i gefnogi llywodraethu da, a ffocws cryf ar berfformiad a gwella, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y model gofal iechyd yn cael ei foderneiddio a'i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol er mwyn bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

## Drwy ei drefniadau rheoli ariannol, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Serch hynny, nid oes ganddo hyd yma gynlluniau ariannol effeithiol a chynaliadwy wedi'u cynnwys yn rhan o gynllun tymor canolig integredig

### Drwy ei drefniadau rheoli ariannol ar gyfer 2013-14, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb, ond effeithiodd hyn ar ddarpariaeth gwasanaeth

**54.** Cafodd Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013-14 ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2013. Roedd y Cynllun Blynyddol yn cynnwys cynllun ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a nodai fesurau i osgoi costau a thargedau ar gyfer arbedion. Nid oedd y cynllun yn gytbwys, serch hynny. Er bod cyfanswm yr her ariannol wedi'i gyfrifo'n £44 miliwn yn y cynllun, dim ond £19.9 miliwn o gynilion rhyddhau arian parod a chynlluniau pellach gwerth £6 miliwn i osgoi costau a nodwyd. Gadawodd hyn y £19 miliwn yn weddill yn swm a oedd wedi'i orddyrannu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth gwasanaeth a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

**55.** Parhaodd y Bwrdd Iechyd i ddatblygu amrywiaeth o gynlluniau gwella costau yn ystod y flwyddyn. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cyflawni 83 y cant o werth y cynlluniau arbed a'r mesurau a nodwyd ganddynt i leihau costau erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnwys llwyddo i ail-negodi cytundebau hirdymor â rhanddeiliaid. O gyfuno hyn â £23.9 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, bu modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau

cydbwysedd ariannol. Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn na broceriaeth o 2014-15, felly nid yw wedi trosglwyddo unrhyw ofyniad ad-dalu i flwyddyn ariannol 2014-15.

**56.** Ar gyfer 2013-14, roedd cynllun ariannol blynyddol cymeradwy'r Bwrdd yn seiliedig ar ragdybiaethau clir a realistig ynghylch pwysau disgwyliedig o ran costau, megis dyfarniadau cyflog a chostau cyffuriau. Cynhaliwyd cyfarfodydd manwl mynych i reoli'r gyllideb er mwyn monitro cynnydd ac ymdrin ag achosion o amrywio rhwng yr alldro a'r gyllideb, rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a chynlluniau arbed, gan ddarparu gweithdrefnau cadarn i fonitro'r gyllideb. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi adroddiadau rheolaidd ar ei ragolygon ariannol, ac mae'r rhain yn ystyried unrhyw risg ariannol hysbys, ac yn ddigon cywir i ddibenion rheoli a llywodraethu ariannol.

**57.** Adroddir cynlluniau arbed arfaethedig yn ôl Is-adran, ac maent yn seiliedig ar newidiadau hysbys neu arfaethedig i'r trefniadau staffio, amrywio lefelau gweithgarwch ac/neu newidiadau i gostau contractau os oes modd mabwysiadu ymagweddau gwahanol at gaffael. Maent hefyd wedi'u rhannu i gategorïau yn ôl y risg o fethu â'u cyflawni. Mae'r dull hwn o gymorth i ymwreiddio'r broses o geisio sicrhau gostyngiadau cost realistig a chyflawnadwy. Efallai fod lle i'r Bwrdd Iechyd ddadansoddi cyfraddau llwyddo yn ystod y flwyddyn a rhwng y naill flwyddyn a'r nesaf ar gyfer gwahanol fathau o gynlluniau arbed ar draws Is-adrannau. Byddai hyn o gymorth i nodi'r rhesymau pam bod rhai cynlluniau arbed yn afrealistig, ac i ystyried y posibilrwydd o ddysgu'r naill oddi wrth y llall er wrth ddylunio cynlluniau arbed ar gyfer y dyfodol.

**58.** Wrth ddefnyddio dull blynyddol o ganfod arbedion, ceir oedi cyn rhoi newidiadau ar waith, ac yn 2013-14 amcanwyd y byddai 30-40 y cant o'r arbedion yn cael eu cyflawni yn chwarter olaf y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn cyd-daro â phwysau'r gaeaf, gan greu tensiwn rhwng yr angen i sicrhau arbedion a chynnal safonau gwasanaeth, megis targedau mynediad, mewn cyfnod lle gwyddys bod y galw am wasanaethau'n cynyddu bob blwyddyn. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei dargedau perfformiad a'i dargedau ariannol, a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn i ostwng ei fuddsoddiad mewn mentrau costus i leihau rhestrau aros. Effeithiodd hyn yn y pen draw ar ei allu i gyflawni ei dargedau mynediad Atgyfeirio i Driniaeth, ond gwnaed y penderfyniad ar y sail bod asesiad risg wedi'i gynnal er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i gleifion a chanddynt yr angen mwyaf clinigol.

**59.** Er i mi roi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, cyflwynais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'r farn honno. Cyfeiriai'r adroddiad at y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi torri'r ddyletswydd statudol newydd i greu a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cynllun tymor canolig integredig treigl, dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau o 2014-15, gan nad oedd Gweinidogion wedi'i gymeradwyo eto. Ceir gwybodaeth ychwanegol am gynllunio tymor canolig yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Hyd yma, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull cynaliadwy o reoli arian yn y tymor canolig.

**60.** Cyflwynodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 gyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl, yn hytrach na phob blwyddyn unigol. Mae'r Ddeddf yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, haws ei reoli. Mae'n symud i ffwrdd oddi

wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi cynlluniau tymor canolig integredig digon cadarn, a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

**61.** Un o nodau'r Bwrdd Iechyd yw datblygu gwasanaethau sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol. Fodd bynnag, bu eleni'n flwyddyn heriol yn sgil cyflwyno gofynion cynllunio tymor canolig, y dull byrdymor cyfredol o gynllunio arbedion a'r cynnydd yn y pwysau ar wasanaethau.

**62.** Yn absenoldeb y cynllun tymor canolig / tair blynedd cymeradwy, nodai'r Cynllun Ariannol Blynyddol a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn her ariannol o oddeutu £49 miliwn, ac yn erbyn hynny nodwyd cynlluniau arbed a thargedau lleihau costau gwerth cyfanswm o £23.1 miliwn. Roedd hyn yn golygu diffyg o oddeutu £26 miliwn wrth gynllunio gan nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu canfod digon o arbedion i lenwi'r bwlch ariannu. Adroddwyd hyn wrth Lywodraeth Cymru.

**63.** Mae'r cynlluniau arbed ar gyfer 2014-15 yn anodd eu cyflawni. Mae'r pwysau o ran costau yn gysylltiedig â chyflogau, sef prif faes arbedion y Bwrdd Iechyd. Mae hyn oherwydd y pwysau ar gapasiti gwelyau a phroblemau wrth recriwtio nyrsys, sy'n golygu bod angen prynu staff byrdymor i mewn yn barhaus. Ddiwedd Hydref 2014, roedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau 55 y cant o gyfanswm yr arbedion yr oedd disgwyl eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, ac yr oedd yn rhagweld £35 miliwn o ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cyfran uchel (30 y cant) o gyfanswm yr arbedion disgwyliedig wedi'u dosbarthu'n rhai anghylchol, ac mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw'r ymagwedd yn gynaliadwy.

**64.** Er mwyn sicrhau mwy o arbedion cylchol, mae'n debygol y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ailddylunio gwasanaethau, ystyried modelau cyflenwi gwahanol a newid disgwyliadau cwsmeriaid, yn hytrach na pharhau â'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol ar gost isel, a thrwy osgoi torri costau mewn modd unffurf neu anwahaniaethol. Gall hyn olygu adolygu meysydd lle ceir prosesau cymhleth, gwella gwybodaeth reoli, a gwella'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, yn ogystal â cheisio rheoli'r galw mewn modd rhagweithiol. Bydd angen ymwreiddio trefniadau i reoli costau a gwella'n barhaus ym mhob lefel er mwyn cyflawni hyn, ac efallai y bydd angen buddsoddi rhywfaint ymlaen llaw yn awr.

**65.** Mae incwm ychwanegol o £26.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, wedi gostwng y risg ariannol gyffredinol yn ystod y flwyddyn i raddau sylweddol. Serch hynny, hyd yn oed o weithredu mesurau ariannol ychwanegol, bydd hyn yn gadael bwlch ariannu gweddilliol o £3.9 miliwn, y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael ag ef yn nhri mis olaf y flwyddyn ariannol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw unrhyw gamau i sicrhau arbedion yn y tymor byr yn amharu ar gyflwr ariannol y sefydliad yn y blynyddoedd nesaf.
Bydd angen iddo hefyd sicrhau nad yw mesurau arbed byrdymor yn amharu ar ddiogelwch clinigol na mynediad at wasanaethau i'r rhai a chanddynt yr angen clinigol mwyaf.

**66.** Mae'r rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 yn fwy ffafriol, gan fod dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru'n uwch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn honni y bydd cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei ddyrannu ar draws sefydliadau GIG Cymru ar sail maint y boblogaeth, ac y bydd hynny'n cynyddu ei ddyraniad. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod o dan bwysau ariannol a gweithredol sylweddol, a dylai felly wneud defnydd mor effeithiol ag sy'n bosibl o unrhyw gapasiti ariannol drwy ganolbwyntio ei fuddsoddiad ar drawsnewid gwasanaethau a llwybrau fel eu bod yn rhyddhau'r arbedion, y gostyngiadau cost a'r gwelliannau ansawdd mwyaf.

**67.** Mae arbedion y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar waith i ailddylunio gwasanaethau wrth greu Canolfan Gofal Critigol Arbenigol, a'r rhaglenni Dyfodol Clinigol a Gofal Iechyd Darbodus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun tymor canolig yn rhoi disgrifiad clir eto o'r modd y cyflawnir y trosglwyddiad hwn. Bydd alinio buddsoddiadau cyfalaf â modelau gofal newydd yn hollbwysig er mwyn llwyddo.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella o sylfaen weddol gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu'r gwaith cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei heriau ariannol tymor hwy yn y dyfodol, ac yn bodloni anghenion o ran gofal cleifion a iechyd y boblogaeth.

**68.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, ac wedi'i chyflwyno o dan y themâu canlynol:

- cynllunio strategol;
- strwythur trefniadol;
- sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol;
- rheoli perfformiad; a
- chynnydd wrth ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.

### Nid yw'r dull o gynllunio'n weithredol ac yn strategol yn bodloni anghenion y sefydliad eto, ond mae'n ceisio atgyfnerthu ei gynllun a'i drefniadau

**69.** Datblygodd y bwrdd ei gynllun tymor canolig integredig er mwyn sicrhau bod nodau a rhagdybiaethau ariannol yn cael eu hystyried yn realistig. Wrth baratoi'r cynllun i'w gymeradwyo, yr agweddau ariannol oedd yn achosi'r anhawster mwyaf. Ar y pryd, roedd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa lle'r oedd ei ragolygon tair blynedd ar gyfer refeniw a chost yn cynnwys diffyg cronnus o £122 miliwn. Penderfynodd y Bwrdd Iechyd beidio amcangyfrif arbedion posibl yn rhy uchel, na phennu gostyngiadau cost tybiannol. Canlyniad hyn fu sefyllfa ariannol anghyson dros gyfnod o dair blynedd. Ar sail hynny, ni chafodd y cynllun tymor canolig integredig ei gymeradwyo gan y Bwrdd na Llywodraeth Cymru.

**70.** Heb ystyried cyllid, nid oedd y cynllun yn ddigon cadarn i ennyn hyder yn y gallu i'w gyflawni. Ar y cyfan, roedd y cynllun yn rhoi cyd-destun da i'r sefydliad, ond nid oedd digon o eglurder ynghylch sut y byddai'n rheoli'r galw am ofal iechyd. Canolbwyntiai yn lle hynny ar gyflenwi gwasanaethau, a hyd yn oed wedyn, nid oedd digon o fanylion ynghylch gwasanaethau cymunedol na chleifion â blaenoriaeth, na chanlyniadau'r sefydliad. Ar y cyfan, roedd y dull o gynllunio'n strategol, y capasiti ar gyfer hynny, a maint a chymhlethdod y galw, yn amharu ar y gallu i ddatblygu cynllun effeithiol.

**71.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dysgu yn sgil yr ymarfer a gafwyd yn ddiweddar i gynllunio dros gyfnod o dair blynedd, ac er ei fod ar hyn o bryd yn gweithredu cynllun blwyddyn o hyd dros dro, mae'n gwneud cynnydd da gyda'r fersiwn nesaf o'r cynllun tair blynedd a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015.

Mae’r strwythur trefniadol ar y cyfan yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth, cyfathrebu ac atebolrwydd effeithiol, ond yr her yw sicrhau ymgysylltu clinigol wrth drawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol.

**72.** Mae strwythur y Weithrediaeth, a’r strwythur cyflenwi is-adrannol sy’n sail i hynny, yn gweithredu’n ddigon da i sicrhau bod modd i’r sefydliad gefnogi gwelliannau gweithredol. Mae’r strwythur a’r model atebolrwydd cyfredol o gymorth i sicrhau bod y sefydliad yn rheoli’r rhan fwyaf o’i wasanaethau mewn modd rhagweithiol, a lle bydd problemau’n dod i’r amlwg mae’r sefydliad hefyd yn dangos ei fod yn gweithredu’n gyflym mewn ymateb i hynny.

**73.** Fodd bynnag, nid yw’n glir bob amser a yw’r strwythur o gymorth i alluogi moderneiddio ac effeithlonrwydd drwy arweinyddiaeth ac ymgysylltiad clinigol. Er enghraifft, y galw am atgyfeiriadau gofal sylfaenol yw’r uchaf fesul pen o’r boblogaeth yng Nghymru. Mae’r galw hwn yn creu cost annymunol, yn enwedig mewn gwasanaethau cleifion allanol, ac o bosib mewn gwasanaethau diagnosteg, sy’n gwyro adnoddau clinigol oddi wrth driniaethau cleifion mewnol ac oddi wrth wasanaethau gofal heb ei drefnu. Mae arweinyddiaeth ac ymgysylltiad clinigol ar draws yr holl broffesiynau, a hefyd ym maes gofal sylfaenol, yn hanfodol er mwyn helpu i greu llwybrau effeithlon ac economaidd i gleifion a datblygu gwasanaethau diogel sy’n sicrhau canlyniadau effeithiol i gleifion.

**74.** Yn rhan o’r asesiad strwythuredig, ystyrir y cyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch, ac a yw’r cyfrifoldebau hynny’n helpu i alluogi trefniadau ansawdd cryf ac integredig. Mae’r cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch wedi’i rannu rhwng y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Meddygol a’r Cyfarwyddwr Therapïau. Ceir trefniadau clir i ddirprwyo cyfrifoldebau ansawdd a diogelwch penodol o’r Weithrediaeth i uwch reolwyr eraill o fewn y strwythur gweithredol, a thystiolaeth hefyd fod y broses o weithredu trefniadau ansawdd yn rhan o ddull integredig ar draws swyddogaethau’r cyfarwyddiaethau.

## Mae effeithiolrwydd y Bwrdd, sicrwydd y Bwrdd a'r rheolaethau mewnol yn effeithiol i raddau helaeth ac yn datblygu i fodloni anghenion sy'n gysylltiedig â newid tymor hwy

**75.** Mae'r Bwrdd yn arddangos gweinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol, ond ceir rhai heriau o hyd. Ar y cyfan, mae'r weinyddiaeth, yr agenda ac ansawdd yr her a'r drafodaeth o gymorth i sicrhau bod swyddogaethau'r Bwrdd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Fodd bynnag, mae agenda'r Bwrdd yn sylweddol sy'n golygu bod ei gyfarfodydd yn hir. Er bod hynny'n caniatáu trafodaeth- fanwl, gall gywasgu ar eitemau yng nghefn yr agenda. Gall hyn gael mwy o effaith ar ansawdd y drafodaeth ar adroddiadau sicrwydd pwyllgorau ac ar eitemau eraill sydd fel arfer ar ddiwedd yr agenda.

**76.** Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol, ac mae'n glir bod y Bwrdd yn ystyried yr amgylchedd allanol newidiol a'i heriau a'i adolygiadau ei hun, ac yn diwygio'r strwythur pwyllgorau'n unol â hynny. Mae'r dull o roi sicrwydd, o bennu risgiau ac o godi eitemau o'r pwyllgorau i sylw'r Bwrdd yn effeithiol. Fodd bynnag, gellid gwella sicrwydd is-bwyllgorau i bwyllgorau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac, er bod y pwyllgor ei hun yn effeithiol, mae ei agenda'n tyfu o'r naill flwyddyn i'r nesaf, a gallai elwa ar gael fframwaith sicrhau ansawdd cliriach.

**77.** Byddai angen i'r fframwaith hwn:

- nodi rhaglen waith glir a manwl ar gyfer anghenion sicrwydd pwyllgorau;
- dirprwyo'r cyfrifoldebau am roi sicrwydd i is-bwyllgor atebol (lle bo hynny'n fuddiol); a
- chynnwys trefniadau ar lefel is-bwyllgor i gynllunio'i raglen sicrwydd ac adrodd crynodeb o'r sicrwydd yn ôl i'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.

**78.** Er mwyn datblygu'r math hwn o fframwaith sicrwydd ansawdd, byddai angen adolygu'r strwythur is-bwyllgorau, adolygu ac asesu'r rhaglen sicrwydd ansawdd, y prosesau i ddirprwyo gofynion sicrwydd, a phroses i adrodd yn ôl wrth y pwyllgor ynghylch sicrwydd, problemau a materion sydd angen sylw ar lefel uwch.

**79.** At ei gilydd, mae Aelodau Annibynnol yn arddangos gallu arbenigol i herio, ond mae ansawdd y craffu a'r cwestiynu'n amrywio. Yn rhan o'r asesiad strwythuredig, mae fy nhîm wedi arsylwi nifer o bwyllgorau. Dengys y gwaith hwn fod pwyllgorau'n cael eu cynnal yn effeithiol ar y cyfan, a bod rhai enghreifftiau o graffu cryf. Fodd bynnag, ceir hefyd enghreifftiau lle na fu digon o ffocws i'r cwestiynu, a lle na chyfrannodd y cwestiynu hwnnw ryw lawer at yr agenda. Nid yw ychwaith yn glir bob amser a yw penderfyniad wedi'i gytuno ai peidio, ac os felly beth yw'r penderfyniad hwnnw. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i'r ysgrifennydd gofnodi'r penderfyniad, a hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i'r Weithrediaeth ymateb yn effeithiol i unrhyw benderfyniadau a drafodwyd.

**80.** Ar y cyfan, mae'r wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd yn ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, ac mae hyn o gymorth i sicrhau penderfyniadau a goruchwyliaeth mewn meysydd busnes allweddol. Ceir bylchau fodd bynnag, ac er eu bod yn gyffredin mewn llawer o sefydliadau iechyd, byddai ymdrin â'r bylchau hynny'n cryfhau'r trefniadau ymhellach. Er enghraifft ni cheir digon o ffocws ar ganlyniadau busnes/canlyniadau'r sefydliad nac ar gyflawniad rhaglenni/cynlluniau; mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd gydnabod pa mor dda mae'n cyflawni ei uchelgeisiau a nodwyd yn flaenorol. Mae fy nhîm wedi arsylwi trafodaethau a wnaed ar gynlluniau a gyflwynir i'w cymeradwyo gan y Bwrdd. Er bod gwybodaeth ariannol ddigonol yn gysylltiedig â rhai o'r cynlluniau, mae'r wybodaeth honno'n brin mewn cynlluniau eraill. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd gael dealltwriaeth lawn o hyfywedd ariannol y cynllun, effaith y cynllun ar gyllid y Bwrdd Iechyd, a gwerth am arian y cynllun yn ei gyfanrwydd.

**81.** Mae trefniadau risg yn cefnogi'r rhan fwyaf o agweddau ar ddarpariaeth gwasanaeth, ac yn cynorthwyo rheolaeth strategol. Mae'n glir bod trefniadau risg yn ddigon cadarn er mwyn adrodd ar lawer o risgiau'r sefydliad, eu monitro a'u lliniaru. Mae'r trefniadau ar gyfer risg yn agwedd annatod ar lywodraethu ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd, a defnyddir y rhain er mwyn helpu i lunio rhaglenni gwaith. Ar y cyfan, mae'r rheolaeth ar risg yn gweithredu'n effeithiol ar lefel strategol, er y gellid cyflwyno gwelliannau pellach yn gysylltiedig â'r canlynol:

- canfod beth yw'r archwaeth am risg, a bod yn ymwybodol o hynny wrth wneud penderfyniadau;
- cymhwyso sgôr risg mewn modd cyson; a
- datblygu sgoriau risg pwrpasol ar gyfer iechyd cyhoeddus a phartneriaeth.

**82.** Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaethau mewnol effeithiol i fodloni gofynion sicrwydd cyfredol a chefnogi gwelliant gweithredol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys rhaglenni gwaith cynhwysfawr ac adnoddau digonol ar gyfer Atal Twyll, Archwilio Cyfalaf ac Archwilio Mewnol, Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau'n rheolaidd, ac yn adrodd ar grynodeb o'r diwygiadau i'r Pwyllgor Archwilio. Nid yw'n glir ar hyn o bryd, fodd bynnag, a adroddir ar y rhaglen archwilio clinigol mewn modd sy'n galluogi pwyllgorau i gael sicrwydd.

**83.** Mae trefniadau i ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Datganiad Ansawdd Blynyddol yn cyflawni cyfrifoldeb y sefydliad i raddau digonol. Mae proses y Datganiad Ansawdd Blynyddol wedi'i hymwreiddio i'r isadrannau. Galluoga'r broses hon i isadrannau bennu nodau ansawdd manylach, disgrifio ansawdd gwasanaethau a chanfod yn lleol unrhyw heriau neu risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag ansawdd gwasanaethau. Mae'r dull hwn o ddatblygu datganiadau ansawdd ar lefel 'uned fusnes' yn arfer da.

**84.** Yn rhan o'm hymrwymiad i gynorthwyo i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'n rhaglen leol, a'r rhaglen orfodol genedlaethol o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae adrannau ac isadrannau'n rhoi'r rhain ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn sefydlu mecanwaith olrhain ar gyfer y sefydliad, fydd yn olrhain y broses o weithredu argymhellion yr holl archwiliadau allanol, ac yr adroddir yn ei gylch yn rheolaidd wrth ei Bwyllgor Archwilio.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer rheoli perfformiad gweithredol, ac mae'n ymwybodol o'i anghenion o ran gwybodaeth am berfformiad. Serch hynny, mae taro cydbwysedd rhwng sicrhau mynediad a phwysau ariannol yn her iddo.

**85.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddiwylliant perfformiad a gwelliant cryf, ac mae'n ymateb yn gyflym pan fydd problemau'n codi'n gysylltiedig â pherfformiad. Ceir tôn clir o frig y sefydliad mai'r brif flaenoriaeth yw perfformiad ac ansawdd gwasanaethau, a dangosir ymdeimlad o frys yng nghyfarfod y Bwrdd ac mewn pwyllgorau pan fydd unrhyw broblemau'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cydbwyso perfformiad ariannol a mynediad at wasanaethau, ac mae hyn yn arbennig o broblematig oherwydd y gyfradd uchel o alw am atgyfeiriadau a phwysau yn sgil gofal heb ei drefnu. Nid yw'r problemau perfformiad hyn yn hawdd eu datrys heb gyflwyno mentrau cost uchel yn ychwanegol at y lefel gyfredol o staff ac amser sesiynau clinig. Ceir dulliau gweithredu clir ar gyfer atebolrwydd am berfformiad isadrannau, ac ymddengys fod y rhain gan amlaf yn gweithredu'n effeithiol. Serch hynny, nid yw hi eto'n glir i ba raddau y mae atebolrwydd am berfformiad proffesiynol ym maes gofal iechyd yn cyd-fynd â strwythurau atebolrwydd perfformiad is-adrannol.

**86.** Mae adroddiad y Bwrdd ar berfformiad yn trafod Haen 1 a pharthau acíwt, ond mae angen gwella'r ymdriniaeth â chanlyniadau, gwasanaethau cymunedol/sylfaenol a gwasanaethau a gomisiynir. Nid yw'r ymdriniaeth â pherfformiad yn erbyn prif raglenni'r sefydliad a chyflawniad prosiectau yn ddigonol eto. Bydd angen i'r Bwrdd hefyd ddatblygu ei ddulliau adrodd fel bo modd monitro cerrig milltir allweddol yn effeithiol yn y cynllun tymor canolig integredig newydd, a hefyd i adolygu manteision busnes cyn gynted ag y bo agweddau ar y cynllun wedi'u cyflawni. Mae'r adroddiad ar berfformiad y Bwrdd yn cynnwys cyd-destun/cefndir da ar berfformiad ar y cyfan, ac yn nodi atebolrwydd cyfarwyddwyr arweiniol a chamau ar gyfer gwella. Mae'r pwyllgorau'n parhau i ddatblygu eu dulliau o adrodd ar berfformiad yn lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran ymateb i faterion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae rhai heriau'n bodoli o hyd.

**87.** Y llynedd, roedd fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu cyffredinol, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu ansawdd a rheoli ansawdd. Er na chyfeiriwyd at unrhyw bryderon mawr, canfuom feysydd i'w gwella. Cafwyd ymateb cynhwysfawr gan reolwyr y Bwrdd Iechyd i'm canfyddiadau, a nodai'r meysydd y byddai'n canolbwyntio arnynt.

**88.** Amlygai fy ngwaith yn 2013 yr angen i atgyfnerthu rhai agweddau ar reoli risg, adborth ar brofiadau cleifion, dysgu gwersi yn sgil adborth ar ansawdd ac atgyfnerthu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach. Yn fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2014, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd dar y cyfan, a bod angen datblygu rhai meysydd ymhellach, megis ymwreiddio prosesau gwersi a ddysgwyd.

## Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ymhellach ei ddull o ddylunio a rheoli newid ac o atgyfnerthu gwaith cynllunio'r gweithlu.

**89.** Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae fy ngwaith yn mynd

rhagddo a bydd nifer o'r meysydd thematig yn cael eu hadolygu yn gynnar yn 2015. Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud sylwadau ynghylch capasiti'r sefydliad i reoli newid a materion y gweithlu, gan fod y rhain yn ffactorau penodol sy'n berthnasol i drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni newid. Dylent hefyd fod wedi'u cynnwys ym mhroses y cynllun tymor canolig integredig.

**90.** Mae fy ngwaith hyd yma wedi dangos y canlynol:

- Bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer newid yn cefnogi gwelliant gweithredol, ond nad yw'r Bwrdd eto'n arddangos dulliau priodol o reoli newid er mwyn cefnogi cyflawni gwaith moderneiddio graddfa fawr a chymhleth a ddisgrifir yn y cynllun tymor canolig integredig. ac
- nad yw dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio'r gweithlu wedi'i integreiddio'n ddigonol eto i gynlluniau tymor canolig, ac er bod y rheolaeth ar y gweithlu'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth gweithredol, mae effeithiolrwydd y rheolaeth honno'n amrywio.

**91.** Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig - agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Y gallu i reoli newid | Oherwydd ehangder y cynllun tymor canolig integredig gwreiddiol, a'r ffaith nad oes trefniadau wedi'u diffinio'n glir er mwyn cyflawni newid, nid yw'n glir a oes gan y Bwrdd Iechyd y gallu ar hyn o bryd i weithredu rhaglen newid mor gymhleth. Mae angen ffocws cryfach ar wasanaethau o ddyluniad mwy pendant, camau clir, cerrig milltir allweddol, atebolrwydd, yr adnoddau sydd eu hangen a chanlyniadau diffiniedig. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddigon o gapasiti newid hyd yma i alluogi, cefnogi a sicrhau newid ar raddfa systemau cyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd yn creu adnoddau ychwanegol, ond nid yw'n sicr ar hyn o bryd a fydd hyn yn ddigonol.<br>Mae tîm gwella mewnol y Bwrdd Iechyd, 'Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan' (GPAB) wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu i gefnogi gwelliant clinigol drwy ddatblygu arweinyddiaeth glinigol, cymorth ar gyfer prosiectau a modelau gwasanaeth. Mae GPAB yn darparu mecanwaith da i gefnogi arloesi a newid cynyddraddol i gyd-fynd â modelau gwasanaeth clir wedi'u moderneiddio. Mae newid a arweinir gan isadrannau, partneriaethau ac ymgysylltu, yn cefnogi gwelliant a datblygiad gwasanaethau. |

| Mater | Crynodeb o’r canfyddiadau |
|---|---|
| Cynllunio’r gweithlu | Nid yw dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio’r gweithlu wedi’i integreiddio’n ddigonol eto i unrhyw gynlluniau tymor canolig, ac er bod y rheolaeth ar y gweithlu’n cefnogi darpariaeth gwasanaeth gweithredol, mae effeithiolrwydd y rheolaeth honno’n amrywio.<br>Nid yw’r adrannau ar y Gweithlu yn y cynllun tymor canolig yn integreiddio’n ddigonol â rhaglenni newid y cynllun tymor canolig integredig, felly nid ydynt yn diffinio model gwasanaethau’r dyfodol o ran y newidiadau sydd eu hangen i’r gweithlu. Fodd bynnag, mae cynlluniau gweithredol ar gyfer y gweithlu’n cael eu datblygu ar draws nifer o adrannau gwasanaeth, sy’n helpu i greu dealltwriaeth o anghenion y gweithlu yng nghyswllt dyluniad presennol y gwasanaethau.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi nodi rheolaeth ar y gweithlu yn risg allweddol, yn enwedig o ran recriwtio, defnyddio staff asiantaeth a locwm, hyfforddi staff meddygol, rheoli absenoldeb ac arfarnu perfformiad. Mae trefniadau’n cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i reoli’r risgiau hyn, ac er bod modd rheoli rhai ohonynt, bydd rhai risgiau’n parhau i fod yn bryderon hirdymor. |
| Ystadau ac asedau, Gwaith partneriaeth. Ymgysylltu â chleifion a dinasyddion a’r defnydd o dechnoleg | Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau, ac asesir y meysydd hyn yn fuan yn 2015. |

## Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes penodol.

**92.** Yn ystod 2014, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau i’r Bwrdd Iechyd ar y defnydd o adnoddau yn y meysydd penodol a ganlyn:

- Gwasanaethau nyrsio ardal;
- Trefniadau codio clinigol; a
- Theatrau llawdriniaeth

**93.** Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau’r adolygiadau hyn yn yr adrannau a ganlyn.

### Ceir amrywio anesboniadwy yn adnoddau a llwythi gwaith y gwasanaeth nyrsio ardal, ynghyd â gwendidau mewn systemau gwybodaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd asesu perfformiad, y capasiti a’r galw

**94.** Mae rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i hyrwyddo dealltwriaeth well o wasanaethau nyrsio ardal, ond ni ddeellir ffiniau’r rôl bob amser, ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu. Er enghraifft, mae Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd yn cyfleu’r cynllun i symud tuag at fodel gofal integredig sy’n canolbwyntio ar gymunedau. Nid yw’n glir, fodd bynnag, beth yw safle’r gwasanaethau nyrsio

ardal oddi mewn i'r model hwn, ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu.

**95.** Ceir diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r galw sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu a oedd digon o gapasiti. Mae hyn hefyd yn arwain at amrywio sylweddol o ran adnoddau a diffyg cydbwysedd rhwng llwythi gwaith y timau. Nid yw'r adnoddau wedi'u halinio'n glir ag anghenion y boblogaeth.

**96.** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu siart lif yn pennu'r meini prawf atgyfeirio, mae problemau'n bodoli o hyd yn gysylltiedig ag ansawdd a phriodoldeb atgyfeiriadau i'r gwasanaethau nyrsio ardal. Nid oes rhestr wirio safonol ar gyfer yr wybodaeth sydd ei hangen wrth atgyfeirio achos i'r gwasanaethau nyrsio ardal, na ffurflen atgyfeirio gyffredin, er bod cerdyn atgoffa wedi cael ei lunio i nyrsys ysbyty er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch yr hyn sydd ei angen.

**97.** Gan nad oedd system wybodaeth ar gael, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal asesiad effeithiol o'r galw a phennu gofynion y gweithlu nyrsio ardal i oleuo'r defnydd o staff. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu offeryn i fonitro gallu'r gweithlu,  yw'n gallu pennu gofynion ei weithlu mewn modd effeithiol gan nad oes ganddo systemau gwybodaeth cynhwysfawr. Yn gyffredin â gweddill Cymru, ceir rhai cyfyngiadau ar y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu ansawdd ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ystod ehangach o fesurau ansawdd a diogelwch a gaiff eu monitro, yr adroddir amdanynt, ac y gweithredir yn eu sgil.

Er y cafwyd lefel dda o fuddsoddi mewn codio clinigol o fewn y Bwrdd Iechyd, mae ystod o wendidau yn y trefniadau a'r prosesau codio clinigol yn lleihau cywirdeb data codio clinigol i raddau sylweddol.

**98.** Mae codio data cleifion yn glinigol yn sail ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan gyrff y GIG i reoli eu busnes, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, a bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd uchel. Yn ystod 2014, cynhaliodd fy nhîm adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynhyrchu gwaith codio clinigol amserol a manwl gywir. Cwblhawyd y gwaith ar y cyd â chydweithwyr o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**99.** Canfu'r adolygiad ymrwymiad clir i fuddsoddi mewn codio clinigol, gyda ffocws cadarnhaol ar hyfforddiant a datblygu. Yr oedd llinellau atebolrwydd rheolaethol clir ar gyfer swyddogaethau codio clinigol, a threfniadau da i integreiddio â'r agenda wybodeg ehangach. Mae polisi codio clinigol y Bwrdd Iechyd yn gyfredol ac yn bodloni safonau cenedlaethol.

**100.** Fodd bynnag, mae diffyg ymgysylltu clinigol, mynediad araf at gofnodion meddygol ac ansawdd gwael y cofnodion hynny, a diffyg trefn i ddilysu'n rheolaidd, yn tanseilio effeithiolrwydd y broses codio clinigol. Mae'r mynediad at wybodaeth electronig yn dda. Fodd bynnag, ceir oedi pan fydd staff codio yn cyrchu cofnodion meddygol, a hynny er gwaethaf y ffaith bod swyddogion adalw wedi'u lleoli yn y ddau brif safle ysbyty. Roedd y mynediad at gofnodion yn arbennig o broblematig yn ysbyty Nevill Hall.

**101.** Mae angen mynd i'r afael ag ansawdd cofnodion meddygol, yn enwedig o ran agweddau clercol ar gofnodion meddygol, megis taflenni rhydd a rhenyddion adrannau, gwella ymgysylltu clinigol er mwyn helpu i sicrhau cywirdeb ac atgyfnerthu ac ymwreiddio prosesau dilysu ac archwilio.

**102.** Defnyddir data codio clinigol mewn modd priodol ac mae'n bodloni safonau cenedlaethol ar gyfer dilysrwydd a chysondeb, ond mae peth o'r codio yn wallus, mae ei amseroldeb wedi dirywio ac nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o'r gwallau na'u goblygiadau. Mae'r gyfradd gydymffurfio â'r targed amseroldeb yn dirywio, ac fe geir rhai problemau sylweddol yn gysylltiedig â chywirdeb y data:

- bodlonodd y Bwrdd Iechyd y safonau dilysrwydd a chysondeb cenedlaethol ar gyfer data sy'n deillio o godio clinigol ar gyfer 2012-13;
- cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd darged Llywodraeth Cymru, sef y dylid codio gweithgarwch o fewn tri mis ar gyfer 2012-13, ond ni chynhaliwyd y perfformiad hwnnw yn ystod y flwyddyn hon, ac fe geir ansicrwydd a fydd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targedau ar gyfer 2013-14; ac
- wrth adolygu cywirdeb, canfuwyd cyfraddau gwall yn amrywio rhwng tri a 36 y cant, gyda'r rhan fwyaf o wallau'n gysylltiedig â chodio diagnosisau.

**103.** Ceir lefel dda o ymwybyddiaeth ar y Bwrdd o bwysigrwydd codio clinigol, ond mae'r wybodaeth a adroddwyd wedi dyddio, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth i aelodau'r Bwrdd am berfformiad cyfredol yn erbyn targedau cenedlaethol.

Er bod tystiolaeth o welliannau mewn gwasanaethau theatrau llawdriniaeth ers fy ngwaith diwethaf yn 2011, mae problemau ar hyd y llwybr cleifion mewnol yn amharu ar ddefnydd effeithlon o gapasiti theatrau, ac mae'r cyfraddau canslo'n parhau i fod yn uchel.

**104.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ers imi gynnal fy adolygiad diwethaf o berfformiad ei theatrau llawdriniaeth yn 2011. Yn dilyn y gwaith hwnnw, datblygwyd cynllun gwella a oedd yn cynnwys camau gweithredu clir wedi'u cyfyngu gan amser, ac a oedd wedi'i alinio â'r fenter Trawsnewid Theatrau genedlaethol.

**105.** Mae Trawsnewid Theatrau wedi canolbwyntio ar wella ystod o brosesau ansawdd. Roedd hi'n glir bod rheolwyr a staff theatrau'n cefnogi'r fenter hon ar gyfer gwella, ond nid oedd y gefnogaeth mor amlwg ymhlith staff meddygol arbenigol. Roedd y prosesau gwella ansawdd yn cynnwys hyfforddiant ar "Ffactorau Dynol", atgyfnerthu prosesau cyn llawdriniaethau, briffiadau cyn rhestr a chwblhau rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd. Mae trefniadau perfformiad hefyd wedi cael eu datblygu i adrodd am gynnydd wrth y Bwrdd, a hefyd i asesu cyflawniad cyffredinol amcanion Trawsnewid Theatrau.

**106.** Mae'r gwasanaethau theatrau ar hyn o bryd yn arddangos diwylliant gwella cryf, ond gall prosesau a reolir y tu allan i dîm y Theatr, fel rheoli rhestrau, amserlennu rhestrau, asesiadau cyn llawdriniaethau a derbyniadau, lesteirio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a photensial i sicrhau gwelliannau pellach.

**107.** Er bod Trawsnewid Theatrau wedi creu ffocws ar wella prosesau ansawdd, ceir lle i wella'r adborth ar y camau a gymerwyd yn erbyn digwyddiadau a adroddwyd, ac i atgyfnerthu gwaith i ddadansoddi tueddiadau digwyddiad er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus.

**108.** Ar y cyfan, cafwyd gwelliant cyffredinol yn y defnydd o theatrau, er bod angen gweithredu'n barhaus i fynd i'r afael â'r gyfradd uchel o lawdriniaethau sy'n cael eu canslo, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent lle caiff 18 y cant o lawdriniaethau eu canslo ar hyn o bryd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Hydref 2014 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | I'w gwblhau erbyn dechrau mis Rhagfyr 2014 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Godio Clinigol | Awst 2014 |
| Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig | Rhagfyr 2014 |
| Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal | Ebrill 2014 |
| Asesiad Strwythuredig 2014 | Rhagfyr 2014 |
| Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad o Theatrau Llawdriniaeth | Gorffennaf, 2014 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2014 | Ebrill 2014 |

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Amcan o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau | Mai 2015 |
| Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol | Ebrill 2015 |
| Adolygiad Diagnostig TGCh | Chwefror 2015 |
| Adolygiad Dilynol o Brosiect Eiddilwch Gwent | Ebrill 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Yn Amlinelliad o Waith Archwilio 2014, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £426,711 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi'u cynnwys yn y ffi a nodir uchod

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio

Yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014, nodwyd y risgiau archwilio ariannol ar gyfer 2014. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau amgylchedd rheoli** | | |
| Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon. | Bydd fy nhîm archwilio'n profi'r cofnodion cyfrifyddu a'r rheolaethau mewnol sydd ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon. | Cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol wedi'u profi'n unol â'r bwriad, a'u cael yn gadarn. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o drafodion afreolaidd nac anghyfreithlon. |
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol. [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. | Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod rheolwyr yn diystyru rheolaethau. |
| Ceir risg o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg o bwys [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio'n cynnal gwerthusiad er mwyn canfod pa fathau o refeniw sy'n achosi risgiau o'r fath, yn canfod pa reolaethau cysylltiedig o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'r risgiau hynny, ac yn canolbwyntio wrth brofi ar amseriad a gwerth refeniw lle bo'n briodol. | Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wth gydnabod refeniw. |
| **Risgiau'n gysylltiedig â systemau ariannol** | | |
| Mae fersiwn 12 system gyfrifyddu Oracle yn cael ei phrofi ar hyn o bryd er mwyn paratoi i symud i'r system newydd o ddiwedd blwyddyn ariannol 2013-14. Ceir risg i hygrededd a chyflawnder y trosglwyddiad data ar ddyddiad y fantolen. | Bydd fy nhîm archwilio yn asesu'r trefniadau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rhoi ar waith, ac yn profi'r gweithdrefnau terfynu er mwyn sicrhau bod yr holl drafodion a'r balansau yn cael eu cofnodi, ac wedi'u dangos yn y flwyddyn ariannol gywir. | Asesu'r trefniadau fel y cynlluniwyd. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o ddata anghyflawn neu wallus wrth gau'r gyllideb ar ddyddiad y fantolen. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon** | | |
| Ceir risg sylweddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei derfyn adnoddau refeniw. Dangosai'r sefyllfa ym mis 9 ddiffyg hyd hynny yn y flwyddyn o £6.1 miliwn, a rhagwelwyd diffyg diwedd blwyddyn o £5.6 miliwn. Os eir heibio i'r terfyn adnoddau, byddaf yn gosod amodau'n gysylltiedig â'm barn ynghylch rheoleidd-dra ac yn cyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol yn egluro'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y corff yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i gyrraedd y terfyn adnoddau. | Wrth gynnal ei brofion, bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai ddangos tuedd wrth adrodd. | Profion archwilio â ffocws wedi'u cynnal yn ôl y bwriad ar rannau perthnasol o'r datganiadau ariannol. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o duedd o ran barn nac amcangyfrifon. |
| Ceir risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei derfyn adnoddau cyfalaf. Dangosai'r sefyllfa ym mis 9 danwariant hyd hynny yn y flwyddyn o £4.5 miliwn, ond rhagwelir y bydd y Bwrdd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y corff yn cynyddu'r risg y gallai barn ynghylch dosbarthu gwariant fel cyfalaf ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni'r terfyn adnoddau. | Wrth gynnal ei brofion, bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar ddosbarthiad gwariant fel cyfalaf neu refeniw. | Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o duedd mewn profion archwilio ar ddosbarthiad gwariant fel refeniw neu gyfalaf, nac unrhyw dystiolaeth o duedd o ran barn. |
| **Risgiau'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol.** | | |
| Mae'r **amserlen** ar gyfer cynhyrchu ac ardystio'r **cyfrifon blynyddol** yn parhau i fod heriol.<br>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau priodol ar waith i baratoi'r cyfrifon a sicrhau bod papurau gwaith digonol yn cael eu darparu i'w harchwilio'n amserol. | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n agos â staff y Bwrdd Iechyd i fonitro cynnydd, ac yn ceisio datrys unrhyw faterion yn gysylltiedig ag amseru cyn gynted ag sy'n bosibl fel bo modd bodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon. | Bu'r tîm archwilio'n gweithio gyda staff y Bwrdd Iechyd, yn ôl y bwriad, i fodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Caiff **y cyfrifon blynyddol** eu llunio'n unol â **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG**. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael dealltwriaeth lawn o'r gofynion **hyn**, gan ymateb i newidiadau a sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â risgiau a materion mewn modd priodol.<br>Dyma rai meysydd risg penodol:<br>• amcangyfrifon, yn enwedig ar gyfer darpariaeth gofal iechyd parhaus, gwariant ar ofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol;<br>• cywirdeb a chyflawnder yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth, o ystyried nifer y newidiadau yn y Weithrediaeth ac ymhlith Aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn ystod y flwyddyn; a<br>• Pholisi taliadau'r sector cyhoeddus a datgeliadau, o ystyried pryderon y llynedd na chydymffurfiwyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan roi sylw neilltuol i'r meysydd risg hyn, drwy gynnal profion â ffocws. | Profion archwilio â ffocws wedi'u cynnal yn ôl y bwriad ar rannau perthnasol o'r datganiadau ariannol. Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk